

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor - 13eg o Fai 2008.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr: Ifan Glyn Jones (Cadair), Elwyn Jones-Griffith, Dyfed Edwards – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Eurig Wyn Evans – Nebo; Dafydd Glyn Owen; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Owen, D Martin Williams – Talysarn; OP Huws – Cyngorydd Sir.

Cafwyd cadarnhad bod yr heddweision wedi bod gyda'r gwn gyrru rhwng Penygroes a Llanllyfni, a rhwng Penygroes a Talysarn. Roedd y Clerc wedi cael galwad ffon gan y warden gŵn yn dweud nad oedd staff ar gael i fynd i gadw golwg ar gerddwyr cŵn ar lwybrau troed yn fuan yn y bore, gan bod y ddyletswydd hon yn cael ei throsglwyddo i swyddog newydd yn y Cyngor (heb ei benodi eto). Y Cyngor Cymuned yn siomedig iawn yn yr ymateb, gan bod angen rhywun ar fyrder i fynd i atal y perchnogion cŵn rhag gadael baw ar y llwybrau. Parcio ar linellau dwbl yn parhau i fod yn broblem ger y Co-op – ysgrifennu at y warden draffig am ddiweddariad o'r cynlluniau i roi gorchymyn i gyfyngu oriau llwytho ar y lon.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor.

- *Bee Hive Farm, Penygroes – adeiladu tri ty – diwygiad i gais cynllunio.
- *16 Ffordd y Stesion, Talysarn – Estyniad un llawr cefn. .
- *Tir ger Glan Aber, Llanllyfni – 12 ty i gyfarfod ac anghenion lleol am dai ynghyd a chreu mynedfa newydd.

Caniatawyd y ceisiadau canlynol gan yr Awdurdod perthnasol:

- *Trosi cyn gapel i dy Capel Mawr, Talysarn
- *Estyniad deulawr cefn 21 Tai Nantlle, Nantlle
- *Estyniad unllawr cefn Bronydd, Ffordd Llwyndu, Penygroes
- *Trosi rhan o fflat gwaelod i gynnwys fflat ychwanegol 6 Stad Tan y Coed, Penygroes
- *Newid defnydd adeilad amaethyddol i dy Fferm Cae Efa Lwyd Fawr, Penygroes
- *Dymchwel gwesty presennol ac adeiladu 9 ty Nantlle Vale Hotel, Talysarn.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

*Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol – gwrthwynebiadau i Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Darllenwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn cadarnhau cynhwysedd dynodiadau tai i 30 yr hectare ym Mhenygroes. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at aelod y Cynulliad, Jane Davidson, yn datgan bod y Cyngor yn anhapus iawn gyda'r ffordd mae'r drefn yn gweithio, a bod angen gwrandio mwy ar bobl leol. Y Cyngor yn bryderus y bydd yr effaith ar gefn gwlad yn handwyol iawn. Pryder hefyd am y costau o gynnal yr holl gyfarfodydd ac adroddiadau.

*Ymatebion i gwynion – darllenwyd yr ymatebion: Llwybr Boncen Eithin; Arwydd dim cwn cae Cwting – arwydd am ei roi o'r diwedd; Waliau yn Talysarn – y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd am wal Lon yr Eglwys eto; Linell wen Talysarn; Arwydd Pontcrychddwr – wedi diflannu. Y Cyngor am roi un arall yn ei le; Parcio Siop Spar, Penygroes.

Arall

*Derbyniwyd llythyr gan Alun Ffred Jones AS parthed problemau gwasanaeth band eang (broadband) yn yr ardal.

Adroddiadau Pentrefi.

***Nebo:** Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i ail-adeiladu'r wal ar y sgwar, a rhoi lle am fin ysbwriel yn y wal. Coeden gelyn angen ei thocio o flaen y Gof Golofn ar sgwar Nebo.

***Llanllyfni:** Mynwent Bara Caws. Diwrnod wedi ei glustnodi ar ddiwedd y mis i dacluso'r fynwent. Derbyniwyd cais swyddogol am y £2000 a glustnodwyd ar gyfer Menter Llyfni bedair blynedd yn ol o dan Brosiect Pentrefi y Cyngor Cymuned. Cytunwyd talu'r swm yma i Fenter Llyfni.

***Penygroes:** CCTV. Y Cynghorydd Dyfed Edwards yn hysbysu'r Cyngor bod grwp o Penygroes wedi mynd i weld wahanol systemau sydd ar gael. Bydd cost o oddeutu £30,000 i gael y system CCTV yn y pentref. Y Cyngor Cymuned yn cefnogi yr egwyddor o gael CCTV ar y sgwar ym Mhenygroes. *Cwyn wedi ei dderbyn am geir yn cael eu gyrru ar yr hen lon (Penygroes/Talysarn) ger Tyrpeg. Bolard ar goll ochr Talysarn. Giat wedi mynd oddi yno hefyd. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd gan bod pryder am ddiogelwch cerddwyr.

Archwilio Cerrig Beddi

Bloc F ym mynwent MacPelah wedi ei archwilio. 89 o gerrig angen sylw – bydd y Cyngor yn ceisio cysylltu gyda'r perchnogion maes o law er mwyn iddynt wneud unrhyw waith atgyweirio. Diolchwyd Elwyn am ei waith yn mynd efo Twm i archwilio a chofnodi'r cerrig beddi.

Materion yr Heddlu

Bydd yr Arolygydd Keith Ellis yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd gofyn i PC Gwyn Hughes edrych ar y canlynol yn ystod y mis nesaf – gor-yrru Talysarn/Penygroes; Plant y ymgynnull tu ol i fyngalos yr henoed yn Nhalysarn ac yn yfed dan oed; Plant yn ymgynnull o dan y bont yn rhywle wrth cae Cwting.